



CYNLLUNIAU MARCIO TAG

HAF 2025

**CYMRAEG AIL IAITH - UNED 5
1020U50-1**

Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn gynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu'r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

TAG CYMRAEG AIL IAITH - UNED 5

CYNLLUNIAU MARCIO HAF 2025

ADRAN A

Y Gymraeg yn y Gymdeithas

Cwestiwn 1 (i)

Wrth ateb Cwestiwn 1(i) disgwylir i'r ymgeiswyr ymhelaethu ar bwyntiau fel y rhai canlynol:

- Pobl sydd wedi sefyll dros y Gymraeg yn y gorffennol, fel Saunders Lewis, Gwynfor Evans, Eileen Beasley, Dafydd Iwan.
- Digwyddiadau fel sefydlu cymdeithasau a sefydliadau, e.e. Urdd Gobaith Cymru; yr ysgolion Cymraeg cyntaf.
- Protestiadau cenedlaethol allweddol, e.e. sefydlu Cymdeithas yr Iaith; hanes boddi Cwm Celyn a'r ymateb iddo; hanes trigolion ardal Llangyndeyrn, Sir Gaerfyrddin.
- Datblygiadau gwleidyddol, e.e. deddf iaith 1993; Mesur y Gymraeg 2011; sefydlu Llywodraeth Cymru; sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg.
- Canlyniadau'r cyfrifiadau ac arwyddocâd y canlyniadau hynny.
- Digwyddiadau cymdeithasol neu chwaraeon allweddol sydd wedi hyrwyddo'r iaith, e.e. tîm pêl-droed Cymru'n hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod Ewros 2016.

Cwestiwn 1 (ii)

Wrth ateb Cwestiwn 1(ii) disgwylir i'r ymgeiswyr ymhelaethu ar bwyntiau fel y rhai canlynol:

- Ffrindiau sy'n siarad a/neu'n dysgu Cymraeg ac enghreifftiau o'r cyfleoedd i siarad Cymraeg â nhw.
- Athrawon yn yr ysgol/coleg a'r rhesymau pam maen nhw'n ysbrydoli.
- Aelodau o'r teulu sy'n siarad a/neu'n dysgu Cymraeg.
- Pobl sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned leol, fel swyddogion yr Urdd a'r fenter iaith; siaradwyr Cymraeg mewn gweithleoedd lleol fel caffis a siopau.
- Gwaith Cosmisynydd y Gymraeg ac effaith y gwaith hwnnw.
- Enwogion, e.e. ym maes chwaraeon, cerddoriaeth, actio, y cyfryngau; llenyddiaeth.
- Pobl sy'n protestio dros y Gymraeg heddiw, e.e. yr ymgyrchu yn erbyn ail gartrefi.
- Pobl sy'n defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ystod marciau	AA3
BAND 1 16-20	• arddangos amrywiaeth eang iawn o adnoddau iaith, a gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen • defnyddio ystod eang o eirfa a thermau priodol • eu mynegi eu hunain yn aeddfed, yn glir ac yn gywir • saernïo'u gwaith yn fanwl a gofalus • mynegi barn yn hyderus ac yn rymus • arddangos gwybodaeth drylwyr, eang iawn a pherthnasol am faterion a syniadau'n ymwneud â sefyllfa'r iaith Gymraeg • cyfeirio at amrywiaeth eang o ffynonellau ac adnoddau priodol • arddangos y gallu i gloriannu gwahanol sefyllfaoedd a phersbectifau yn aeddfed ac yn fedrus
BAND 2 13-15	• arddangos amrywiaeth helaeth o adnoddau iaith, a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen • defnyddio ystod dda o eirfa a thermau priodol • eu mynegi eu hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir • cynllunio'u gwaith yn fanwl • mynegi barn yn gadarn ac yn sicr • arddangos gwybodaeth led fanwl, helaeth a pherthnasol am faterion a syniadau'n ymwneud â sefyllfa'r iaith Gymraeg • cyfeirio at amrywiaeth dda o ffynonellau ac adnoddau priodol • arddangos y gallu i gloriannu gwahanol sefyllfaoedd a phersbectifau yn rhesymegol ac yn ystyrlon
BAND 3 10-12	• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith, a gafael dda ar ramadeg a chystrawen • defnyddio ystod o eirfa a thermau priodol • eu mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir • cynllunio'u gwaith yn ofalus • mynegi barn yn effeithiol, gan gyflwyno rhesymau'n gyson • arddangos gwybodaeth helaeth a pherthnasol am faterion a syniadau'n ymwneud â sefyllfa'r iaith Gymraeg • cyfeirio at amrywiaeth o ffynonellau ac adnoddau priodol • arddangos y gallu i ystyried gwahanol sefyllfaoedd a phersbectifau
BAND 4 7-9	• arddangos gafael eitha da ar adnoddau iaith, gramadeg a chystrawen • defnyddio geiriau a thermau priodol • eu mynegi eu hunain yn eithaf clir a chywir • cynllunio'u gwaith yn eithaf gofalus • mynegi barn yn briodol, gan gyflwyno rhai rhesymau • arddangos gwybodaeth berthnasol am faterion a syniadau'n ymwneud â sefyllfa'r iaith Gymraeg • cyfeirio at rai ffynonellau ac adnoddau priodol • arddangos ymwybyddiaeth o wahanol sefyllfaoedd a phersbectifau
BAND 5 4-6	• arddangos ambell enghraifft o ddatblygu syniadau arwynebol • defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas a pheth gafael ar ramadeg a chystrawen • eu mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir ar y cyfan • arddangos ymwybyddiaeth o drefn wrth gyflwyno gwaith • mynegi barn yn uniongyrchol, gan gynnig ambell reswm • arddangos gwybodaeth fras am faterion a syniadau'n ymwneud â sefyllfa'r iaith Gymraeg • cyfeirio at ambell ffynhonnell briodol
0-3	• bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig.

ADRAN B

Trawsieithu

Wrth drafod yr erthygl am gerddoriaeth a phobl ifanc, disgwylir i'r ymgeiswyr ddilyn ffurf llythyr.

Disgwylir iddynt drafod manteision ac anfanteision fel y rhai isod:

Gall cerddoriaeth

- wella ein hwyliau
- helpu ein lles, e.e. drwy ein helpu i fynegi ein teimladau
- ein helpu i ddeall ein gilydd a chryfhau cyfeillgarwch
- ein helpu i ganolbwyntio

Ar y llaw arall, gall cerddoriaeth

- dynnu ein sylw, e.e. tra byddwn ni'n astudio
- hyrwyddo cyffuriau, alcohol a thrais
- arwain at ddelfrydu ac addoli cantorion
- cael effaith negyddol ar ddelwedd y corff.

Wrth fynegi barn bersonol, gallai'r ymgeiswyr hefyd ddewis trafod materion fel:

- y llwyfannau a ddefnyddir ar gyfer gwrandio ar gerddoriaeth a'i ffrydio
- eu chwaeth bersonol mewn cerddoriaeth
- eu profiadau personol neu brofiadau eraill o ganu, chwarae offeryn(nau) a/neu gyfansoddi cerddoriaeth
- eu barn am wrando ar gerddoriaeth ar eu pennau eu hunain neu gydag eraill.

Ystod marciau	AA3
BAND 1 32-40	• mynegi eu hunain yn aeddfed, yn glir ac yn gywir • saernïo'u gwaith yn fanwl a gofalus • rhoi sylw gofalus i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif • mynegi barn yn hyderus ac yn rymus • arddangos amrywiaeth eang iawn o adnoddau iaith a gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen
BAND 2 26-31	• mynegi eu hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir • cynllunio'u gwaith yn fanwl • rhoi sylw gofalus i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn briodol • mynegi barn yn hyderus ac yn glir ac yn ei chefnogi â thystiolaeth berthnasol • arddangos amrywiaeth helaeth o adnoddau iaith a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen
BAND 3 19-25	• mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir • cynllunio gwaith yn ofalus • rhoi sylw i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull • mynegi barn yn effeithiol ac yn ei chefnogi â thystiolaeth berthnasol • arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith a gafael dda ar ramadeg a chystrawen
BAND 4 13-18	• mynegi eu hunain yn eitha clir a chywir • cyflwyno gwaith yn eitha gofalus • arddangos ymwybyddiaeth o gywair, ffurf a chynulleidfa • mynegi barn ac yn ei chefnogi â rhesymau perthnasol • arddangos gafael eitha da ar adnoddau iaith, gramadeg a chystrawen
BAND 5 7-12	• mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir ar y cyfan • arddangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith • mynegi barn ac yn ei chefnogi â rhesymau dilys • defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas a pheth gafael ar ramadeg a chystrawen
0-6	• bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig.